Rhif: **WG23315**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 3 o'r Ddeddf, ar Asesu, a Rhan 4 o'r Ddeddf, ar Ddiwallu Anghenion, gan gynnwys cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol

Dyddiad cyhoeddi: **6 Tachwedd 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **2 Chwefror 2015**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n cael eu gwneud i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyflawni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd i ni erbyn y dyddiad cau, drwy'r post i:

Y Gangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (www.wales.gov.uk/consultations/?lang=cy) a gallwch ei dychwelyd i ni drwy e-bost ar: sswbimplementation@Wales.GSI.Gov.UK.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch, gan gynnwys MS Word, print bras neu Braille, neu mewn ieithoedd eraill.**

Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu:
www.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy

Gweithredu'r Weledigaeth Adroddiad y comisiwn annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
www.icssw.org/vision/?skip=1&lang=cy

Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion:
www.lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm

Ymgynghoriad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru):
www.wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/bill/?skip=1&lang=cy

Taflenni Llywodraeth Cymru ar Wybodaeth, Cyngor a Chymorth, Asesu, Cynllunio Gofal a Gofalwyr:
www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/act/resources/?skip=1&lang=cy

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted

Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (dogfen waith):
www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy

Datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth:
www.cymru.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/ish/?lang=cy

Adroddiad y Grŵp Technegol ar Gymhwystra
www.wales.gov.uk/topics/health/socialcare/act/resources/draft-regulations/?lang=en

Bwriad polisi – Rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth arall o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:
www.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/8420843/?skip=1&lang=cy

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

ebost: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk
ffôn: 029 2080 1172

© Hawlfraint y Goron 2014

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Rhagair

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014, yn creu system gyfreithiol newydd i wasanaethau cymdeithasol. Mae'n creu fframwaith sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynyddu'r pwyslais ar gamau ataliol, gan ddod â phobl yn agosach at benderfyniadau am y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, a mynd i'r afael â heriau newid economaidd a demograffig.

Byddwch i gyd yn ymwybodol o'r egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus sydd wedi cael eu trafod yn eang yn ystod 2014. Mae'r newid diwylliannol tuag at yr ymyriadau priodol lleiaf posibl, 'gwnewch yr hyn y gallwch chi yn unig ei wneud', hyrwyddo tegwch ac ailfodelu'r berthynas rhwng y defnyddiwr a'r darparwr ar sail cydgynhyrchu wedi ei groesawu'n eang mewn lleoliadau gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion hyn yn ymestyn yn ehangach ac yn cyffwrdd â chraidd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan adlewyrchu'r canolbwynt ar lais y dinesydd, rheolaeth y dinesydd a chydgynhyrchu a nodwyd yn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Yr her ym maes gofal cymdeithasol, fel ym maes gofal iechyd, yw datblygu modelau gwasanaeth cynaliadwy, o ran adnoddau ariannol ac adnoddau'r gweithlu, i'n helpu i reoli'r galw yn effeithiol a bod yn gyfartal ac yn deg i bawb. Dylem ymdrechu i hyrwyddo annibyniaeth ac nid dibyniaeth ac, a defnyddio ymadrodd a ddefnyddiwyd gennym flynyddoedd lawer yn ôl, mae angen inni hefyd ystyried sut rydym yn ychwanegu 'bywyd at flynyddoedd' nid dim ond 'blynyddoedd at fywyd'. Drwy gymhwyso'r egwyddorion hyn i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ein nod yw cyflawni system sy'n addas ar gyfer anghenion pob defnyddiwr.

Bydd y fframwaith statudol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys tair rhan. Mae'r rhan gyntaf, y Ddeddf ei hun, eisoes yn ei lle. Bydd y ddwy ran arall yn cynnwys rheoliadau a chodau ymarfer neu ganllawiau statudol, a fydd yn helpu i gyflenwi'r manylion ac yn helpu'r rhai sy'n gyfrifol am swyddogaethau o dan y Ddeddf i ddeall sut y dylent gyflawni'r rhain.

Cafodd bwriad polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r prif grwpiau o bwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf eu nodi mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog

Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ar 30 Ionawr 2014. Mae'r rheoliadau a'r codau a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn troi'r bwriad polisi hwn yn ffurf bendant ac yn cyflenwi'r ddwy ran arall o'r fframwaith statudol sy'n weddill.

Er mwyn cyrraedd y pwynt hwn, mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid drwy gyfres o grwpiau technegol i ddatblygu a mireinio manylion ein polisi ar gyfer rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol.Hoffwn roi teyrnged i'r rhanddeiliaid hynny, ac i ddiolch iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr at y broses o wireddu'r Ddeddf.

Fy mwriad i yw y byddwn, drwy ymgynghori ar y rheoliadau hyn a'u gosod gerbron y Cynulliad, yn gallu cyflwyno system gydlynol o asesu, penderfynu a chymhwystra a chynllunio gofal gyda'n gilydd. Ar yr un pryd byddwn yn sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael fel un ffordd o ddiwallu anghenion, a chreu fframwaith pwerus newydd ar gyfer diogelu

Yn unol â Chod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth, rwyf yn ymrwymedig i gynnal asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf. Byddaf wrth gwrs yn defnyddio'r dystiolaeth a gesglir fel rhan o'r broses ymgynghori hon i lywio'r asesiad hwn a gobeithio y byddwch chi yn achub ar y cyfle a gynigir drwy ein cwestiynau ymgynghori i gyfrannu at hyn.

Rwyf yn bwriadu i'r rheoliadau hyn, y codau ymarfer cysylltiedig a'r canllawiau statudol gael eu gosod gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015.

Bydd yr ail gyfres o is-ddeddfwriaeth ar gael ar gyfer ymgynghori arni o fis Mai 2015, unwaith eto wedi ei hategu gan ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith grwpiau technegol a chynghori. Bydd y gyfres hon yn creu system sy'n sicrhau canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya, yn ysgogi cydweithredu rhanbarthol ac yn gweithredu system o godi ffioedd, asesu ariannol a thalu am ofal. Bydd yn cynorthwyo gwneud sylwadau a darparu eiriolaeth, ac yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan fethiant darparwr

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn rwyf yn bwriadu i'r rheoliadau hyn, eu codau ymarfer cysylltiedig a'r canllawiau statudol gael eu gosod gerbron y Cynulliad yn ystod gaeaf 2015.

Mae'r gwaith rwyf yn ei ddisgrifio yn adeiladu ar y consensws cenedlaethol sydd gennym ar gyfer y newidiadau y mae angen inni eu gwneud. Mae'r holl agweddau allweddol ar ddatblygu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn cael eu cynnal gyda chyfranogiad agos dinasyddion ac arweinyddiaeth gref gan lywodraeth leol, y GIG a darparwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol, y Grŵp Arweinyddiaeth a Phanel y Dinasyddion i gynorthwyo hyn, a sicrhau uchelgais newydd a rennir bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael lle canolog a chadarn yn ein rhaglen ar gyfer newid.

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar y rheoliadau a'r codau ymarfer sydd wedi eu datblygu er mwyn helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i weithredu Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Gwneir y rheoliadau o dan yr adrannau priodol o'r Ddeddf, ac mae'r codau ymarfer yn cael eu cyhoeddi o dan adran 145 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi codau ymarfer i awdurdodau lleol ar weithredu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r hyn sy'n cyfateb i swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol wedi ei nodi yn Atodlen 2 i'r Ddeddf.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â'r rheoliadau drafft a'r codau ymarfer ar **asesu anghenion**, sy'n deillio o ran 3 o'r Ddeddf, ac ar **ddiwallu anghenion**, sy'n deillio o Ran 4.

## Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r canolbwynt bellach yn troi at weithredu'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae'r rheoliadau a'r codau wedi cael eu datblygu drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac maent bellach yn cael eu cyflwyno i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

## Y dystiolaeth ar gyfer newid

Nodwyd y dystiolaeth ar gyfer newid yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*[1] ac yn yr ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), a nododd egwyddorion allweddol y Bil.

[1] Gweler **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith[2] o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion, a'n Hadolygiad o Ddiogelu.[3] Mae'r cyfan yn asgwrn cefn ein hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy'r broses graffu genedlaethol ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[4], a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau

[2] Gweler **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

[3] http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?skip=1&lang=cy

[4] http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy

hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Mae'r broses hon wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau drafft a'r codau ymarfer a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn.

## Y cynigion

### *Asesu*

Mae'r Ddeddf yn creu hawl i asesu ar gyfer pobl – oedolion, plant a gofalwyr – lle y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gall fod gan yr unigolyn anghenion ar gyfer gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwr).

Y nod yw symleiddio'r broses asesu fel ei bod yn briodol i anghenion yr unigolyn ac yn ystyried holl amgylchiadau'r person.

Mae'r fframwaith ar gyfer yr holl asesu, y syml a'r cymhleth, yn nodi isafswm set ddata genedlaethol wedi ei ddilyn gan ddadansoddiad o **5 ffactor cydberthynol** i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried holl amgylchiadau'r person.

Efallai y bydd **asesiad syml** dim ond yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio templed lleol cyffredin, y gellir ei gynnal pan fydd person yn cael mynediad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Bydd **asesiad mwy cymhleth** yn cynnwys yr asesiad syml ac asesiadau arbenigol ychwanegol i ffurfio asesiad integredig mwy cynhwysfawr. Ar ddiwedd yr holl asesiadau rhaid i'r person fod â dealltwriaeth glir o **ganlyniad** yr asesiad a'r hyn fydd yn digwydd nesaf.

Mae'r broses asesu yn hanfodol i'r system ehangach o ofal a chymorth ac mae'r prawf cymhwystra yn deillio'n naturiol o'r broses asesu.

### *Cymhwystra*

Mae'r fframwaith cymhwystra a nodir o dan y Ddeddf yn creu hawl orfodadwy i'r unigolyn, lle y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr hyn y gellid ei wneud i ddiwallu anghenion, ac yna dyfarnu a oes unrhyw rai o'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ac felly y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu diwallu.

Drwy'r model newydd o ofal cymdeithasol bydd y model cymhwystra yn dileu'r trothwy traddodiadol ar gyfer mynediad at ofal a chymorth a reolir ac yn gosod model mwy ymatebol yn ei le sy'n ystyried ymateb unigol ar gyfer pob person.

Nid yw dyfarnu cymhwystra yn ymwneud â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae'n ymwneud â gwarantu mynediad i ofal a chymorth i fodloni canlyniadau llesiant. Yn y model newydd bydd awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag anghenion eu poblogaethau drwy ymyrryd ac atal yn gynnar wedi ei dargedu i leihau'r galw ar gymorth dwysach. Fodd bynnag, lle nad yw'r gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion y person bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu.

### *Cynlluniau Gofal a Chymorth*

Bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei greu pan fydd asesiad yn nodi na ellir darparu gwasanaethau heb gynllun neu lle gellir darparu gwasanaeth heb gynllun ond mae angen cymorth parhaus ar yr unigolyn i gael mynediad at y gwasanaethau hyn.

**Rhaid** i gynllun gofal a chymorth nodi'r canlyniadau personol a nodi'r ffordd orau o helpu i'w cyflawni. Nid yw'n fwriad ceisio disodli trefniadau lleol ac arbenigol gofal presennol ar gyfer cynllunio gofal a cymorth, nac i'w gwneud yn ofynnol cael templed cenedlaethol unigol ar gyfer 'cynllun gofal a chymorth', er y bydd rhai gofynion sylfaenol am y cynnwys. Bydd cymhlethdod neu ddifrifoldeb angen yr unigolyn yn penderfynu cwmpas a manylion y cynllun gofal a chymorth a'r amrywiaeth o ymyriadau.

Lle y mae cynllun yn ei le ar gyfer yr unigolyn sy'n bodloni gofynion cynllun gofal a chymorth gellir ystyried ei fod yn bodloni dyletswydd yr awdurdod lleol.

Lle y mae'r cynllun gofal a chymorth yn cynnwys ymweliadau â chartref y person at ddibenion darparu gofal a chymorth, **rhaid** i'r ymweliadau hynny fod yn ddigon hir i sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael ei ddarparu'n briodol.

### *Taliadau uniongyrchol*

Mae taliadau uniongyrchol yn symiau ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolwyr, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth cymwys. Mae taliadau uniongyrchol yn grymuso pobl i gael dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu, sy'n ategu eu dulliau cymorth presennol i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol.

Mae taliadau uniongyrchol yn cymryd lle gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, neu a gomisynir gan awdurdod lleol. Gallant fod ar gyfer holl anghenion gofal a chymorth person, neu ar gyfer rhan o anghenion gofal a chymorth person. Yn yr achos olaf bydd gweddill eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn ffordd arall.

Bydd ein cynigion yn gweld parhad o daliadau uniongyrchol fel ffordd o gyflawni canlyniadau llesiant pobl ond mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i ddyfarnu pa ofal a chymorth sy'n gywir iddynt hwy, yn eu barn hwy. Hefyd, bydd ein cynigion yn sicrhau estyn y taliadau uniongyrchol sydd ar gael ar

gyfer mathau eraill o ofal a chymorth (er enghraifft ar gyfer gofal preswyl hirdymor) ac i unigolion sydd ar hyn o bryd wedi eu heithrio rhag cael taliadau uniongyrchol (er enghraifft y rhai â phroblemau cyffuriau neu alcohol).

Ceir crynodeb manylach o'n cynigion yn y **Crynodeb Gweithredol** yn **Atodiad A**.

## Dogfennau ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich sylwadau a'ch barn ar y dogfennau allweddol canlynol:

- Drafft o **Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) 2015** (Atodiad B)
- **Drafft o'r Cod Ymarfer ar Asesu** a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Atodiad C)
- Drafft o **Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwyster) (Cymru) 2015** (Atodiad D)
- Drafft o **Reoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) 2015** (Atodiad E)
- Drafft o **Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015** (Atodiad F)
- Drafft o'r **Cod Ymarfer ar Ddiwallu Anghenion** a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Atodiad G)

Ceir ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn **Atodiad H**.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Asesu a diwallu anghenion

**1. I ba raddau rydych yn cytuno bod y dull o ran cymhwystra, asesu a chynllunio gofal yn glir ac yn syml i'w gymhwyso?**

| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**2. I ba raddau rydych yn cytuno bod telerau a diffiniadau y 5 Elfen Asesu a nodir yn yr Atodiad i’r cod yn Rhan 3 (asesu) yn glir?**

| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Esboniwch

**3. I ba raddau rydych yn cytuno bod y model asesu yn galluogi dull integredig gyda darparwyr gwasanaethau eraill yn rhoi cymorth h.y. gwasanaethau iechyd, plant a theuluoedd, tai, iechyd meddwl?**

| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. I ba raddau rydych yn cytuno bod y prawf cymhwystra a nodir mewn rheoliadau ac yn y cod ymarfer ar Ran 4 yn cynorthwyo darparu cyson ledled Cymru i sicrhau trothwy cenedlaethol?** | | | | | | | |
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
| Beth fydd yn cynorthwyo hyn ymhellach? | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. I ba raddau rydych yn cytuno y dylai rolau cydlynwyr asesu a chydlynwyr gofal gael eu neilltuo ar gyfer ymarferwyr a bennwyd?** | | | | | | | |
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
| | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6. I ba raddau rydych yn cytuno bod y rheoliadau a'r codau ymarfer ar Rannau 3 a 4 yn darparu fframwaith ar gyfer diwallu anghenion plant?** | | | | | | | |
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
| | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7. I ba raddau rydych yn cytuno bod y cod a’r rheoliadau yn Rhan 4 yn galluogi mwy o bobl i gael mwy o reolaeth dros eu gofal a’u cymorth drwy daliadau uniongyrchol?** | | | | | | | |
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |
| **Beth fyddai’n cynorthwyo hyn ymhellach?** | | | | | | | |

**8. I ba raddau rydych yn cytuno bod y cod a'r rheoliadau yn Rhan 4 yn hybu amgylchedd lle gall pobl gyflogi perthnasau agos i reoli neu ddarparu eu gofal a'u cymorth?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

**9. I ba raddau rydych yn cytuno bod y Codau a gyhoeddwyd ar gyfer Rhan 3 a 4 yn cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn bartneriaid llawn yn y broses o ddylunio a darparu gofal a chymorth?**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cytuno | ☐ | Tueddu i gytuno | ☐ | Tueddu i anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ |

## Arall

**Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ynglŷn â rhan 3: asesu anghenion a rhan 4: diwallu anghenion yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oed, anabledd, ailbennu rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.**

**10. A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

**11. A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig?Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

| |
|---|
| |
| |
| **12.** **Bydd ailgydbwyso'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?** |
| |
| **13.** **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.** |

| | |
|---|---|
| **Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, ticiwch y blwch.** | |